SOCIAL CHANGE

# Animeiddiadau Brechlynnau: Adroddiad Ymchwil a Phrofi gyda Chynulleidfaoedd

**Wedi'i baratoi ar gyfer: Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC)**

**Dyddiad: Ionawr 2026**

## Tudalen cynnwys:

3) Cyflwyniad

4) Y briff

5) Dull gwyddor ymddygiad

5) Methodoleg

9) Canfyddiadau allweddol

14) Mewnwelediadau ymddygiadol

16) Mewnwelediad i weithredu

19) Casgliad

19) Profi gyda chynulleidfaoedd

24) Atodiadau

27) Cyfeiriadau

# Cyflwyniad

## Cefndir

Mae Rhaglen Frechu yn Erbyn Clefydau Ataliadwy (VPDP) Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) wedi comisiynu gwaith ymchwil yn flaenorol tuag at ddatblygu adnoddau gwybodaeth ynghylch brechu â brechlynnau HPV a ffliw ar gyfer oedran ysgol uwchradd. O ganlyniad i'r gwaith hwn, casglwyd mewnwelediadau ynghylch y math o fformat, arddull a chynnwys sydd orau gan bobl ifanc, a datblygwyd animeiddiadau ar gyfer pob un o'r brechlynnau hyn. Mae gwaith blaenorol wedi tynnu sylw at y ffaith ei bod yn well gan bobl ifanc adnoddau gwybodaeth clyweledol (animeiddiadau), yn bennaf i'w dangos mewn lleoliadau addysgol fel gwasanaethau ysgol ac ystafelloedd dosbarth, gydag asedau ategol sy'n cynnwys taflenni y gallan nhw wedyn eu rhannu gyda'u rhieni neu eu gwarcheidwaid.

I adeiladu ymhellach ar y mewnwelediadau hyn, comisiynodd ICC Social Change i gynnal grwpiau ffocws gyda phlant ysgol uwchradd ym Mlwyddyn 9 a 10 i lywio gwaith i gyd-gynhyrchu dau animeiddiad arall gydag asedau ategol yn targedu pobl ifanc yn y grŵp oedran hwn. Mae un animeiddiad ac un grŵp ffocws ar y brechiad atgyfnerthu 3-mewn-1 (sydd hefyd yn cael ei alw'n frechlyn Td/IPV), tra bo'r animeiddiad a'r grŵp ffocws arall yn ymwneud â brechlyn MenACWY. Dechreuodd y prosiect cyn gwyliau'r haf i ymgysylltu â myfyrwyr Blwyddyn 9 yn syth ar ôl i'w brechiadau ddigwydd, ond yn dilyn oedi dros gyfnod yr haf, fe ddilynon ni'r garfan hon i mewn i ddechrau Blwyddyn 10 i gofnodi eu profiadau.

Mae amddiffyniad yn erbyn tetanws, difftheria a polio yn cael ei gynnig i bobl ifanc ar sawl oedran gwahanol gan gynnwys fel babi, yn ystod y cyfnod cyn-ysgol, ac ym mlwyddyn 9 er mwyn atgyfnerthu ac ymestyn yr amddiffyniad. Mae tetanws yn glefyd sy'n effeithio ar y system nerfol, gan achosi cyfangiadau yn y cyhyrau a chymhlethdodau a all beri bygythiad i fywyd. Mae difftheria yn glefyd prin ond heintus iawn a all fod yn angheuol os na ddarperir triniaeth yn gyflym. Yn gyffredinol mae'n effeithio ar y trwyn, y gwddf a'r croen. Mae polio yn glefyd feirol a all heintio llinyn yr asgwrn cefn ac achosi parlys parhaol, gan effeithio'n bennaf ar blant ifanc y gall fod yn angheuol iddyn nhw os yw'n heintio'r ymennydd neu gyhyrau'r frest. Dangosodd gwybodaeth o fis Tachwedd 2024 am y nifer a gymerodd y pigiad atgyfnerthu 3-mewn-1 fod 71.5% wedi'i gymryd yn achos blwyddyn 9, a 71.5% yn achos blwyddyn 10 (COVER 152: Cymru Tachwedd 2024). Mae hyn yn is na'r nifer a gymerodd y brechiad yn y blynyddoedd blaenorol (COVER 152: Cymru Tachwedd 2024) ac felly mae'n faes allweddol i ganolbwyntio arno i wella'r nifer sy'n cymryd y brechiad a lleihau lledaeniad y clefydau hyn.

Mae brechlyn MenACWY yn amddiffyn rhag 4 straen o facteria meningococol, sef mathau A, CW ac Y. Nid yw'n cynnig amddiffyniad llwyr rhag pob clefyd meningococol, a all achosi meningitis (llid yn leinin yr ymennydd) a sepsis (ymateb corff-cyfan i haint sy'n achosi llid eang a difrod i'r organau). Gall cymhlethdodau haint meningococol arwain at dorri aelodau i ffwrdd, niwed i'r ymennydd, creithiau, a hyd yn oed marwolaeth. Mae arddegwyr hŷn yn debycach o gario'r bacteria ac o wynebu risg o gael haint, felly mae cynnal y niferoedd sy'n cymryd y brechlyn hwn yn allweddol.

Yn yr un modd â'r pigiad atgyfnerthu 3-mewn-1, mae'r nifer sy'n cymryd y brechlyn MenACWY wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf (COVER 152: Cymru Tachwedd 2024), gyda'r ffigurau cyfredol yn dangos bod 71.4% wedi'i gymryd ym mlwyddyn 9 a 71.2% ym mlwyddyn 10.

## Y briff

Comisiynodd ICC Social Change i gynnal ymchwil mewnwelediad yn edrych ar y mathau o gwestiynau, rhwystrau a phryderon sydd gan bobl ifanc ynglŷn â dau frechlyn; y pigiad atgyfnerthu 3-mewn-1 a brechlyn MenACWY.

Gan hynny, cynhwysodd y darn hwn o ymchwil ddau grŵp ffocws i gael gwell dealltwriaeth o sut y gellid teilwra'r cyfathrebiadau am frechlynnau yn well er mwyn cynyddu ymgysylltiad ac ymwybyddiaeth pobl ifanc o'r brechiadau a'r broses frechu, a gwneud hynny'n annibynnol ar gyfer pob un o'r brechlynnau a ymchwilid iddynt. Yna bydd y mewnwelediadau a geir o'r ymchwil hon yn llywio dyluniad cychwynnol yr animeiddiadau. Mae hyn yn cynnwys darparu argymhellion ar ddyluniad a fformat, tôn ac iaith, delweddau, cynnwys y negeseuon, a hyd yr animeiddiadau. Ar ôl hyn, bydd yr animeiddiadau'n cael eu dangos i bobl ifanc yn ystod ein cyfnod profi gyda chynulleidfaoedd gan ddefnyddio arolwg, lle gallant roi rhagor o adborth ar ddrafftiau'r animeiddiadau. Mae'r gynulleidfa'n cynnwys pobl ifanc sy'n byw yng Nghymru ac sydd yn yr ysgol uwchradd ym mlynyddoedd 9 a 10, rhwng 13 a 15 oed.

O ganlyniad, roedd y cwestiynau ymchwil yn cynnwys:

**Cwestiwn ymchwil 1 –** Beth yw'r lefelau presennol o ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o frechiadau, a'r pigiad atgyfnerthu 3-mewn-1 a MenACWY yn benodol, ymhlith oedolion ifanc yng Nghymru.

**Cwestiwn ymchwil 2 –** Beth yw'r prif hwyluswyr a chymhellion i oedolion ifanc yng Nghymru gael eu brechu?

**Cwestiwn ymchwil 3 –** Beth yw'r prif rwystrau i gael brechiad yn y boblogaeth darged?

**Cwestiwn ymchwil 4 -** Pa elfennau a dulliau dylunio ar gyfer animeiddiadau ymgyrchoedd sy'n taro tant gyda'r boblogaeth darged?

**Cwestiwn ymchwil 5 -** Pa negeseuwyr a pha ddulliau lledaenu animeiddiadau sy'n cael eu ffafrio gan y boblogaeth darged?

# Dull gwyddor ymddygiad


Mae gwyddor ymddygiad yn golygu defnyddio arbenigedd o ystod o ddisgyblaethau i sicrhau gwell dealltwriaeth o ymddygiad a gweithredoedd pobl. Mae'n ceisio archwilio pam mae bodau dynol yn ymwneud ag ymddygiadau penodol, a helpu ymchwilwyr i ddeall agweddau, ymddygiadau a phrofiadau gwahanol grwpiau cynulleidfa. Mae'r disgyblaethau y mae'n tynnu arnynt yn cynnwys (ymysg eraill) seicoleg, cymdeithaseg, anthropoleg ddiwylliannol, agweddau ymddygiadol ar fioleg, economeg, daearyddiaeth, y gyfraith, seiciatreg a gwyddor wleidyddol.

Fel arbenigwyr ym maes gwyddor ymddygiad, rydym yn ymgorffori fframweithiau ac egwyddorion gwyddor ymddygiad drwy ein gwaith i gyd er mwyn datgelu mewnwelediadau manwl am ein cynulleidfa darged a deall y ffyrdd gorau o roi newid cadarnhaol ar waith. Mae fframweithiau o'r fath yn cynnwys model ymddygiad COM-B, Olwyn Newid Ymddygiad (BCW), MINDSPACE ac EAST – mae trosolwg o'r rhai sydd wedi'u hymgorffori yn y gwaith hwn wedi'i gynnwys yn yr atodiadau.

Defnyddiwyd yr egwyddorion a'r fframweithiau hyn i lywio'n dull ymchwil a'n cwestiynu, gan sicrhau ein bod nid yn unig yn gallu cofnodi'r darlun cyfredol o safbwyntiau iechyd pobl ifanc ar y ddau frechiad, eu hagweddau tuag atynt, a'u hymwybyddiaeth ohonynt, ond hefyd **pam** mae hyn yn wir a'r rhwystrau a'r cymhellion i newid – mae'r rhain yn cael eu galw'n 'fewnwelediadau ymddygiadol'. Gan ddefnyddio'r rhain, rydym yn gallu datblygu, dylunio a chyflawni argymhellion ar gyfer ymyriadau i gyflawni newid cadarnhaol.

# Methodoleg

Dilynodd y fethodoleg a ddewiswyd ar gyfer y briff hwn y dull diemwnt dwbl, sef dull sefydledig o ddiffinio ac archwilio'ch maes pwnc yn fanwl, gan nodi dulliau ar gyfer rhoi newid ar waith, a mabwysiadu dull profi-dysgu-addasu o gyflwyno ymyriadau.



Defnyddiwyd proses rychwant gychwynnol i DDARGANFOD ymhellach rychwant yr ymchwil a'r wybodaeth gyfredol am frechiadau. Yna, fe wnaeth y themâu allweddol a nodwyd lywio ffocws yr ymchwil sylfaenol, ac ar gyfer hynny, defnyddiwyd grwpiau ffocws cyd-ddylunio i edrych ymhellach ar y themâu allweddol a amlygwyd o'r arolwg a DIFFINIO agweddau, ymddygiadau, profiadau a heriau mewn perthynas â'r pigiad atgyfnerthu 3-mewn-1 a'r brechlyn MenACWY.

Yn dilyn yr ymchwil, cynhaliwyd dadansoddiad thematig cyffredinol gyda'r canfyddiadau allweddol i ddarparu dealltwriaeth gyfannol o ymddygiadau, agweddau, dealltwriaeth, cymhellion, heriau ac atebion posibl pobl ifanc mewn perthynas â brechiadau, ac yn benodol y brechiadau atgyfnerthu 3-mewn-1 a MenACWY. Gan ddefnyddio'n harbenigedd mewn gwyddor ymddygiad, ceisiwyd mynd gam ymhellach i nodi mewnwelediadau ymddygiadol sy'n mynd y tu hwnt i **beth** yw'r darlun cyfredol er mwyn cyfleu **pam**. Yn eu hanfod, maent yn dangos y rhagfarnau, yr hwyluswyr a'r heriau gwybyddol sy'n cynnal ymddygiad presennol ac yn atal newid cadarnhaol. Yna bu'r ddealltwriaeth fanwl hon a'r defnydd pellach o fframweithiau sefydledig o gymorth i ddatblygu argymhellion at y dyfodol, gan fanylu nid yn unig ar yr hyn sydd angen digwydd er mwyn ategu newid cadarnhaol ond hefyd sut (DATBLYGU a CHYFLAWNI). Bydd yr argymhellion hyn yn cael eu defnyddio i ategu a llywio datblygiad yr animeiddiad.

## Rhychwantu

Gan ddechrau gydag ymchwil eilaidd, adolygwyd yr wybodaeth a'r data presennol ynghylch y rhwystrau, y profiadau a'r pryderon sydd gan bobl ifanc ar bwnc brechlynnau yn gyffredinol, a'r pigiad atgyfnerthu 3-mewn-1 a MenACWY yn benodol. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus a'r hyn a ddarparwyd i ni gan ICC. Roedd hyn yn ymwneud ag agweddau, ymddygiadau, profiadau, darpariaeth gwasanaethau, ymyriadau blaenorol ac unrhyw ymchwil a/neu werthusiadau cysylltiedig blaenorol. Mae'r rhychwantu hwn yn rhan hanfodol o bob prosiect er mwyn sefydlu beth sy'n hysbys ar hyn o bryd am y maes a nodi bylchau yn yr wybodaeth hon y gall yr ymchwil sylfaenol fynd i'r afael â nhw. Heb y rhychwantu hwn, mae yna risg o ddyblygu mewnwelediad a pheidio ag ychwanegu gwybodaeth newydd at y maes. Mae'r ymchwil eilaidd yn ategu ac yn llywio ffocws yr ymchwil sylfaenol er mwyn sicrhau ei bod yn adeiladu ar ein gwybodaeth ac yn ychwanegu gwerth ati, gan gynnig mewnwelediadau newydd neu well nad oedd ar gael o'r blaen.

O'r gwaith rhychwantu hwn, nodwyd y canlynol:

- Rhaglenni brechu mewn ysgolion a gwefannau'r GIG yw'r prif ffynonellau gwybodaeth sy'n gysylltiedig â brechlynnau i bobl ifanc a'u rhieni (BMG, 2022)
- Mae'r mwyafrif mawr o'r rhieni yn rhan o'r broses benderfynu a ddylid cael brechlyn, ac yn aml nhw sy'n gwneud y penderfyniad terfynol dros eu plant (BMG, 2022; Oostdijk, Van Zoonen, Ruijs, a Mollema, 2021)
- Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn ffynhonnell allweddol o gamwybodaeth i rieni a phobl ifanc (GIG, 2023)
- Mae'r rhwystrau allweddol i bobl ifanc yn cynnwys ofn nodwyddau a sgil-effeithiau, yn ogystal â risg isel o gael y clefydau y mae'r brechlynnau'n amddiffyn rhagddynt, ac argraff

nad yw’r clefydau’n ddifrifol (Berg, 2019; Widdershoven, Reijs, Verhaegh-Haasnoot, Ruiter, a Hoebe, 2022)

- Roedd agweddau ac ymddiriedaeth yn y brechlynnau penodol yn bwysicach na chredoau o ran a oedd pobl yn penderfynu cael eu brechu (Oostdijk, Van Zoonen, Ruijs, a Mollema, 2021)
- Nododd pobl ifanc fod ganddynt fwy o ymddiriedaeth mewn straeon o brofiad personol ar-lein a wyneb yn wyneb o'i gymharu â rhieni (Oostdijk, Van Zoonen, Ruijs, a Mollema, 2021)

Roedd y canfyddiadau hyn yn werthfawr nid yn unig wrth ategu’n dealltwriaeth o agweddau, dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth pobl ifanc o frechlynnau, ond hefyd wrth ganiatáu inni dargedu'r ymchwil sylfaenol ddilynol trwy amlygu bylchau yn yr wybodaeth. O'r canfyddiadau hyn, nodwyd bod angen archwilio'r mathau o gamwybodaeth a welid gan bobl ifanc, yr amheuon penodol sydd gan bobl ifanc ynghylch brechlynnau, a'r sianeli mwyaf effeithiol ar gyfer rhannu gwybodaeth gyda nhw.

## Grwpiau ffocws

Cynhaliwyd dau grŵp ffocws ansoddol rhithwir gydag 11 a saith o bobl ifanc yn y drefn honno, bob un ohonynt o Flynyddoedd 9 a 10. Dewiswyd ysgolion ar sail eu haelodaeth o ddau fwrdd iechyd; Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Roedd y cymysgedd hwn o oedrannau yn caniatáu safbwyntiau o'r cyfnod cyn ac ar ôl derbyn gwahoddiadau.

Nod y grwpiau ffocws hyn oedd archwilio'r rhwystrau a'r cymhellion i gael brechiad, yn ogystal ag ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o frechlynnau, yn benodol ar gyfer y brechlynnau atgyfnerthu 3-mewn-1 a MenACWY, yn y boblogaeth darged. Strwythurwyd y grwpiau ffocws i ymdrin â phob brechlyn ar wahân, gan ganiatáu archwiliad manylach o’r agweddau, yr wybodaeth a’r ymddygiadau sy'n gysylltiedig â phob un. Roedd y nodau ychwanegol yn cynnwys sicrhau gwell dealltwriaeth o ba lwybrau lledaenu, pa nodweddion ac arddulliau dylunio animeiddio, yn ogystal â pha negeseuwyr fyddai’n taro tant fwyaf gyda’r grŵp targed. Dangosir dadansoddiad o'r cyfranogwyr isod:

Tabl 1: Dadansoddiad cyfranogwyr yn ôl ysgol a blwyddyn ysgol

| Ysgol | Grŵp brechlyn | Blwyddyn 9 | Blwyddyn 10 | Canran |
|---|---|---|---|---|
| Ysgol A: BIPCTM | MenACWY | 5 | 2 | 38.89% |
| Ysgol B: BIPBA | Pigiad atgyfnerthu 3-mewn-1 | 0 | 11 | 61.11% |

Tabl 2: Dadansoddiad cyfranogwyr yn ôl rhywedd

| Rhywedd | Canran |
|---|---|
| Bachgen | 27.78% |
| Merch | 61.11% |
| Anneuaidd | 5.56% |
| Gwell gen i beidio â dweud | 5.56% |

Tabl 3: Dadansoddiad cyfranogwyr yn ôl oedran

| Oedran | Canran |
|---|---|
| 13 | 22.22% |
| 14 | 77.78% |

Tabl 4: Dadansoddiad cyfranogwyr yn ôl prif iaith

| Prif Iaith | Canran |
|---|---|
| Cymraeg | 5.56% |
| Saesneg | 88.89% |
| Cymraeg a Saesneg | 5.56% |

Tabl 5: Dadansoddiad cyfranogwyr yn ôl brechlynnau a dderbyniwyd

| Brechlynnau a Dderbyniwyd* | Canran |
|---|---|
| MenACWY a phigiad atgyfnerthu 3-mewn-1 | 50% |
| Pigiad atgyfnerthu 3-mewn-1 yn unig | 16.67% |
| Brechlyn MenACWY yn unig | 0% |
| Y naill frechlyn na'r llall | 5.56% |
| Dwi ddim yn siŵr | 27.78% |

*Sylwch, gan fod rhai myfyrwyr ym Mlwyddyn 9, ni fyddent wedi cael gwahoddiad i gael brechiad eto, a allai gamliwio'r ffigurau ychydig.

## Dadansoddiad mewnwelediadau ymddygiad

Cynhaliwyd dadansoddiad thematig cyffredinol gyda'r canfyddiadau a'r mewnwelediadau allweddol a gasglwyd o'r grwpiau ffocws i ddarparu dealltwriaeth gyfannol o ymddygiadau, agweddau, dealltwriaeth, cymhellion, heriau ac atebion posibl pobl ifanc yng Nghymru mewn perthynas â chynyddu nifer y bobl sy'n cael brechlynnau ac ymwybyddiaeth ohonynt. Llywiodd hyn y broses o nodi'r canfyddiadau cyffredinol, a nodir ar dudalennau 9 – 14. Er bod y grwpiau hyn wedi canolbwyntio ar y 3-mewn-1 a MenACWY ar wahân, defnyddiwyd dadansoddiad thematig i nodi themâu allweddol ar draws y ddau, gyda chanfyddiadau penodol i bob brechlyn wedi'u hamlygu ar wahân.

Yn dilyn y dadansoddiad cyffredinol hwn, aethon ni ati i ddefnyddio'n harbenigedd mewn gwyddor ymddygiad i fynd gam ymhellach i nodi mewnwelediadau ymddygiadol sy'n mynd y tu hwnt i **beth** yw'r darlun cyfredol i gyfleu **pam**. Yn eu hanfod, maent yn dangos y rhagfarnau, yr hwyluswyr a'r

heriau gwybyddol sy'n cynnal ymddygiad presennol ac yn atal newid cadarnhaol. Yna cefnogodd y ddealltwriaeth fanwl hon a'r defnydd pellach o fframweithiau sefydledig ddatblygiad argymhellion ar gyfer y dyfodol, gan fanylu nid yn unig ar yr hyn sydd angen digwydd i ategu newid cadarnhaol ond hefyd sut.

O'r dadansoddiad hwn, nodwyd chwe mewnwelediad ymddygiadol (a welir ar dudalennau 14 – 15) a datblygwyd 11 o argymhellion (a welir ar dudalennau 16 – 19) ar gyfer newid.

## Canfyddiadau allweddol

Fel y soniwyd, cynhaliwyd dadansoddiad thematig ar draws y grwpiau i nodi themâu cyffredinol ac amlygu unrhyw wahaniaethau. Er bod y canfyddiadau'n gyson ar draws y ddau grŵp i raddau helaeth, roedd rhai gwahaniaethau'n ymwneud ag adborth penodol i'r grŵp a/neu'r brechlyn, sef:

- Roedd yn ymddangos bod mwy o ymwybyddiaeth o amgylch y brechlyn 3-mewn-1
- Cafodd gweithwyr meddygol proffesiynol fel negeseuwyr groeso cynnes gan grŵp MenACWY
- Roedd y grŵp 3-mewn-1 yn hoffi'r syniad o rieni neu warcheidwaid fel negeseuwyr
- Roedd y grŵp 3-mewn-1 yn debycach o fod wedi dilyn cyngor rhiant/gwarcheidwad i gael brechlyn

### CY1 - Beth yw lefelau dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o frechiadau ymhlith y boblogaeth darged?

Nod y cwestiwn ymchwil hwn yw ymchwilio i lefel y ddealltwriaeth a'r ymwybyddiaeth sydd gan bobl ifanc yng Nghymru ar hyn o bryd o frechlynnau yn gyffredinol, a'r brechlynnau Atgyfnerthu 3-mewn-1 a MenACWY yn benodol. Drwy ennill dealltwriaeth ddyfnach o ba mor gysylltiedig ac ymwybodol yw pobl ifanc mewn sgyrsiau sy'n ymwneud â brechlynnau, gallwn lywio'r broses o greu deunyddiau a fydd yn taro tant ac yn denu pobl ifanc ymhellach yn well.

*"Rhoddodd [y brechlyn] rywfaint o'r clefyd inni, ac mae'n helpu'r corff i wybod sut i atal y clefyd."*
– Grŵp ffocws brechiad 3-mewn-1

Yn gyffredinol, dangosodd pobl ifanc ddealltwriaeth dda o beth mae brechlynnau'n ei wneud a sut y gallant amddiffyn pobl rhag cael clefydau. Er hynny, roedd ychydig o esboniadau a ddarparwyd ganddynt yn awgrymu bod yna gamsyniadau ynghylch sut mae brechlynnau'n gweithio mewn is-grŵp bach o gyfranogwyr. Er enghraifft, soniodd un disgybl fod brechlynnau yno er mwyn 'gwella' clefydau, sy'n anghywir gan fod brechlynnau yn ataliol eu natur. O ganlyniad, efallai y bydd yn bwysig newid esboniadau i ymdrin â'r bwlch hwn mewn dealltwriaeth.

Er bod disgyblion o'r ddau grŵp ffocws yn gyffredinol wedi dangos dealltwriaeth dda o beth yw brechlynnau, nid oedd hyn yn ymestyn i wahanol fathau o frechlynnau. Yn fwy penodol, roedd pob

disgybl o grŵp ffocws y pigiad atgyfnerthu 3-mewn-1 yn gyfarwydd â'r brechlyn, Er hynny nid oedd yr un ohonynt wedi clywed am y brechlyn MenACWY o'r blaen yn y grŵp ffocws cyfatebol. Wedi dweud hynny, dim ond enw'r brechlyn oedd yn gyfarwydd i'r rhai oedd yn gyfarwydd â'r pigiad atgyfnerthu 3-mewn-1, ond nid oeddent yn gallu rhoi gwybodaeth fanylach ynghylch yr hyn y mae'r brechlyn yn eu hamddiffyn rhagddo a sut roedd yn wahanol i frechlynnau eraill, gan awgrymu dealltwriaeth gyffredinol isel o frechlynnau penodol ac ymgysylltiad isel â gwybodaeth yn seiliedig ar frechiadau.

*“Dw i’n meddwl eu bod nhw [brechlynnau] yn helpu system imiwnedd ein corff i ddod i arfer â’r firws.”*

– Grŵp ffocws brechiad MenACWY

Pan ofynnwyd iddynt am y mathau o wybodaeth yr hoffai pobl ifanc eu cael ynghylch gwahanol fathau o frechlynnau, awgrymwyd y byddent yn hoffi gwybod y grwpiau oedran sydd angen y brechlyn, unrhyw sgil-effeithiau, disgrifiad o'r clefydau y mae'r brechlyn yn amddiffyn rhagddynt, gydag enwau penodol ar facteria neu firysau wedi'u hegluro, yn ogystal ag a yw'r broses frechu yn cynnwys pigiad, pilsen, neu chwistrell trwynol. Yn wir, roedd y prif gwestiynau yr oedd y cyfranogwyr eisiau i ICC eu cadarnhau yn ymwneud ag adweithiau alergaidd i gynhwysion brechlynnau, sut roedd y sgil-effeithiau hyn yn ymddangos, a oedd fersiynau hypoalergenig o frechlynnau ar gyfer pobl ag alergedd, ac a yw pobl sy'n alergaidd i rai brechlynnau hefyd yn alergaidd i eraill. Mae hyn yn awgrymu, er bod gan bobl ifanc ddealltwriaeth isel o frechlynnau penodol a gwybodaeth fwy cynnil, fod ganddyn nhw awydd i ddysgu mwy a deall ar lefel ddyfnach a manylach.

Pan holwyd nhw am glywed barn gyferbyniol, boed ar-lein neu wyneb yn wyneb, sonia’r bobl ifanc yn bennaf am gamsyniadau ynghylch cynhwysion a sgil-effeithiau brechlynnau, gan gynnwys lefelau poen. Yn fwy penodol, dywedodd y bobl ifanc eu bod wedi clywed gwybodaeth wahanol ynghylch graddfa , difrifoldeb a thebygolrwydd profi gwahanol sgil-effeithiau, gan gynnwys credoau sydd wedi'u gwrthbrofi gan wyddoniaeth, megis nad oes cysylltiad rhwng brechlynnau ac awtistiaeth. Er hynny, ystyriwyd bod gwybodaeth anghywir ynghylch sgil-effeithiau o'r fath yn anghredadwy, gyda’r disgyblion yn ei gwneud yn glir i'r grŵp nad oeddent yn rhannu'r safbwyntiau hyn. Serch hynny, o'r ffordd y disgrifiwyd rhai sefyllfaoedd camwybodaeth, roedd eu defnydd o iaith fel “Wn i ddim, cemegau yw hi neu beth bynnag” hefyd yn awgrymu diffyg ymwybyddiaeth o'r hyn oedd wedi'i gynnwys yn y cynhwysion, a chred bosibl bod amheuaeth o'r sylweddau hyn yn rhesymol.

## CY2 - Beth yw'r prif hwyluswyr a chymhellion i'r boblogaeth darged gael eu brechu?

Edrychodd y cwestiwn ymchwil hwn ar y gwahanol gymhellion sy'n achosi i bobl ifanc ddewis cael brechiad, a all wedyn lywio llwybrau posibl ar gyfer pwyslais mewn ymgyrchoedd animeiddiadau sy'n annog pobl i gael eu brechu.

Nodwyd bod deall canlyniadau cael brechlyn neu beidio â chael brechlyn yn gymhelliant allweddol dros gael brechiad, ond ar ganlyniadau negyddol peidio â chael brechlyn y rhoddwyd y pwyslais mwyaf.

Un hwylusydd arwyddocaol i bobl ifanc yw'r wybodaeth sydd ar gael iddynt ynghylch brechlyn, ac maen nhw'n rhoi blaenoriaeth i wybodaeth o brofiadau pobl eraill gyda'r brechlyn yn benodol, pa mor fuddiol yw'r brechlyn i iechyd, unrhyw sgil-effeithiau, yn ogystal â gwybodaeth gyffredinol a'r broses o gael y brechlyn. Rhoddodd rhai disgyblion bwyslais ar ddeall beth yw cyfradd llwyddiant y brechlyn dan sylw, yn ogystal â chyfanswm y bobl oedd eisoes wedi'i gael, gan fod hyn yn arbennig o ddylanwadol ar eu lefelau cysur.

*"Y peth a'm calonogodd i fwyaf, mae'n debyg, yw'r hyn rydw i'n cael y brechiad ar ei gyfer. Felly, os yw e ar gyfer rhywbeth sy'n wirioneddol ddifrifol a bygythiol, yna byddai'n fwy tebygol y byddai'n rhaid imi ei gael e."*
– Grŵp ffocws brechu MenACWY

Yn gyffredinol, roedd y bobl ifanc yn cytuno bod angen sicrwydd ynghylch diogelwch a phwysigrwydd cymryd y brechlyn, gan nodi mai yn bersonol fyddai'r ffordd orau o wneud hyn yn hytrach nag ar-lein neu dros y ffôn, gan briodoli'r ffaith bod gwybodaeth a dderbynnir yn bersonol yn fwy dibynadwy na gwybodaeth a geir ar-lein.

Yn niffyg anogaeth gefnogol, anaml y byddai pobl ifanc yn ymwneud ymhellach â phwnc brechiadau (Oostdijk, Van Zoonen, Ruijs, a Mollema, 2021), sy'n cyd-fynd â'r canlyniadau cyfredol a adlewyrchir yn ymwybyddiaeth disgyblion o'r brechlynnau roedden nhw wedi'u cael. Hynny yw, roedd y mwyafrif o'r bobl ifanc o'r grŵp ffocws MenACWY yn ansicr ynghylch y brechlynnau a gawson nhw, tra bo'r rhai yn y grŵp pigiad atgyfnerthu 3-mewn-1 a nododd eu bod wedi dilyn cyngor eu rhieni i gyd wedi cael o leiaf un brechlyn. Byddai canfyddiadau o'r grwpiau ffocws hyn yn gyson ag ymchwil flaenorol a ganfu fod rhieni pobl ifanc oedd heb ymwneud â phwnc brechiadau wedi dweud wrth eu plant nad oedd angen iddynt gael eu brechu os nad oeddent am wneud hynny (Oostdijk, Van Zoonen, Ruijs, a Mollema, 2021).

O ganlyniad, mae rhieni'n dylanwadu ar ymddygiad eu plant, a all ddigwydd yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, a gallant fod yn ffynonellau allweddol o gymhelliad ar gyfer ymwneud â gwybodaeth am frechlynnau.

Yn olaf, eglurodd y bobl ifanc effaith addasu'r broses ar eu lefelau cysur. Er enghraifft, addasu lleoliad cael brechiad o'r ysgol i'r ysbyty neu glinig er mwyn cynyddu eu teimladau o gysur. Felly mae parodrwydd ar ochr yr oedolion proffesiynol sy'n gyfrifol am y weithdrefn i addasu at anghenion pobl ifanc yn allweddol o ran sicrhau eu cysur.

## CY3 - Beth yw'r prif rwystrau i gael eich brechu yn y boblogaeth darged?

Nod y cwestiwn ymchwil hwn yw ymchwilio i'r prif rwystrau a ffynonellau anghytundeb yn y broses o benderfynu ar frechlynnau i bobl ifanc. Drwy ddeall beth yw'r rhwystrau hyn, mae modd mynd i'r afael â nhw'n well drwy ymgyrchoedd animeiddiadau i dawelu meddyliau pobl ifanc a helpu i oresgyn y ffynonellau hyn o anghytundeb.

Roedd y canfyddiadau allweddol yn cynnwys diffyg gwybodaeth ddigonol, amheuaeth ynghylch dibynadwyedd y brechlyn, a gofid ynghylch sgil-effeithiau fel y prif rwystrau sydd gan bobl ifanc yng Nghymru rhag cymryd brechlyn. Er bod y cyfranogwyr wedi cyfeirio'n benodol at ofn nodwyddau, fe wnaethon nhw nodi hefyd na fyddai hyn ynddo'i hun yn achosi iddynt beidio â chael y brechlyn.

*"Ofn nodwyddau, profiadau drwg pobl ac unrhyw beth allai fynd o'i le."*
– Grŵp ffocws brechiad 3-mewn-1

Yn hytrach, teimlai'r bobl ifanc y byddai pryderon ynghylch y sgil-effeithiau ac ymateb eu corff i'r brechlyn yn peri iddyn nhw benderfynu yn erbyn cael y brechlyn. Roedd hyn yn gysylltiedig â'u hangen am wybodaeth, lle os oeddent yn teimlo nad oedd ganddynt ddealltwriaeth ddigon da o'r brechlyn, byddent yn llai parod i'w gymryd. Mae'r ddealltwriaeth hon yn cael ei chodi gan bobl ifanc yn bennaf trwy bobl maen nhw'n eu hadnabod sydd wedi cael y brechlyn, yn hytrach na gwybodaeth sydd ar gael ar-lein, ac maen nhw'n egluro bod hyn yn deillio o safbwyntiau cyferbyniol a'r anallu i wybod beth i ymddiried ynddo ar-lein.

*"Os nad oedd gen i ddealltwriaeth amdano [y brechlyn], mae'n debyg na faswn i'n ei gymryd e achos os nad oeddwn i'n nabod unrhyw un oedd wedi'i gymryd e a gyda gwahanol sylwadau ar-lein, fyddwn i ddim yn gwybod beth i ymddiried ynddo, felly mae'n debyg na faswn i'n ei gymryd"*
– Grŵp ffocws brechiad MenACWY

Er bod pobl ifanc eisiau gwybod y mathau o sgil-effeithiau y gallent eu profi o frechlyn, roedd yn ymddangos mai eu prif ffocws oedd sgil-effeithiau a allai deimlo'n boenus. Roedd poen yn gysylltiedig yn benodol â 'chanlyniad' cael brechiad; er bod rhywfaint o gydnabyddiaeth y gall unigolion ymateb yn wahanol i frechiadau, roedd poen disgwyliedig yn rhwystro pobl ifanc rhag cael eu brechu. Mae hyn yn awgrymu y gall poen disgwyliedig effeithio ar gymhelliad drwy naill ai ddigalonni'r myfyrwyr neu eu gwneud yn bryderus ynghylch cymryd brechlyn.

Yn yr un modd, soniodd rhai disgyblion y byddent yn barotach i gymryd brechlyn oedd yn hŷn o'i gymharu â brechlyn newydd nad oeddent yn credu ei fod 'mor ddibynadwy'. Rhoeson nhw frechlyn COVID fel enghraifft o frechlyn newydd na fyddent yn dymuno arbrofi ag ef. Mae hyn yn awgrymu bod pobl ifanc yn amheus o gofnodion diogelwch byrrach ac efallai nad oes ganddynt ymwybyddiaeth o'r broses o ddatblygu brechlyn sy'n cynnwys nifer o rowndiau o brofion cyn y gall gyrraedd y farchnad, yn ogystal â bod yn arwydd nad yw pobl ifanc o bosibl yn ymwybodol o'r gor-symleiddio y maent yn agored iddo ac a all arwain at gamdybiaethau peryglus.

*"Roedd y brechiad COVID yn rhy gynnar i arbrofi arno. Dyna pam nad es i am y brechiad COVID."*
– Grŵp ffocws brechiad MenACWY

## CY4 - Pa elfennau a dulliau dylunio ar gyfer ymgyrchoedd animeiddiadau sy'n taro tant gyda'r boblogaeth darged?

Mae'r cwestiwn ymchwil hwn yn edrych yn benodol ar y mathau o arddulliau dylunio, elfennau, cynlluniau lliw a dulliau sy'n apelio fwyaf at bobl ifanc yng Nghymru ar gyfer animeiddiad

brechiadau, ac mae'n cael ei lywio'n rhannol gan adborth y gynulleidfa darged ar animeiddiad blaenorol ynglŷn â brechlyn a ddangoswyd iddynt fel enghraifft. Yna bydd y canfyddiadau hyn yn llywio datblygiad y ddau animeiddiad a'r deunyddiau perthnasol.

Ar y cyfan, roedd y cyfranogwyr yn teimlo'n gadarnhaol am y fideo animeiddio enghreifftiol, gan ganmol yn benodol yr wybodaeth a ddarparwyd, y fformat seiliedig ar fideo, y cymysgedd o adroddwyr animeiddiedig a go iawn, a'r defnydd o liw a lwyddodd, yn eu barn nhw, i gadw eu sylw. Roedd y cyfranogwyr hefyd yn gwerthfawrogi cael gweld y broses o dderbyn brechiad, a gwnaethant sylwadau ar sut roedd y diffyg ymateb a gafodd y ferch ifanc yn yr animeiddiad i dderbyn y chwistrell trwynol yn gysurus ac yn galonogol. Pan ofynnwyd iddynt a fyddai'r animeiddiad hwn yn eu hannog i gael eu brechu, dim ond dau berson a ddywedodd na.

*"Mae'n haws ei ddeall na darllen pamffled, oherwydd gallwch chi ei glywed a gweld beth yw e."*
– Grŵp ffocws brechiad MenACWY

Wedi dweud hynny, roedd y cyfranogwyr yn teimlo, er bod y delweddau'n ddeniadol, nad oedd unrhyw fachyn gweledol ar ddechrau'r fideo, felly dim ond lleiafrif (22.22%) a ddywedodd y byddent yn aros i wylio'r fideo pe byddent yn dod o hyd iddo wrth sgrolio ar y cyfryngau cymdeithasol. Esboniodd y cyfranogwyr hefyd y gellid bod wedi gwella'r ymgysylltiad â'r fideo animeiddio hwn trwy ychwanegu cerddoriaeth gefndir egnïol a llawen, yn ogystal ag adroddwr mwy mynegiannol gyda mwy o emosiwn.

Pwysleisiodd y cyfranogwyr y gallai'r fideo fod wedi'i wella pe bai'n cynnwys gwybodaeth ynglŷn â'r problemau posibl a allai ddigwydd o ganlyniad i gael eich brechu, gyda rhai'n dweud mai rhoi darlun mor gyflawn â phosibl o'r brechlyn yw'r ffordd orau o rymuso pobl ifanc i 'wneud eu penderfyniadau eu hunain' am y brechlyn.

Yn olaf, er bod y cyfranogwyr yn teimlo bod hyd yr animeiddiad yn briodol yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd yn y fideo, awgrymwyd creu un fideo byrrach ac un fideo hirach i ateb anghenion ystod ehangach o bobl ifanc. Y rheswm am hyn oedd, er bod hyd yr animeiddiad yn briodol yng nghyd-destun ystafell ddosbarth, mae'n annhebygol y byddent yn rhoi cymaint o sylw iddo mewn amgylchedd gwahanol. Byddai'n well ganddynt weld animeiddiad byrrach, cryno gyda dolenni i'r animeiddiad hirach ar gael yn y disgrifiad i'r rhai sydd eisiau mwy o wybodaeth. Disgrifiwyd hyd delfrydol ar gyfer fideo byrrach fel rhwng 40 ac 80 eiliad, tra byddai hyd fideo hirach rhwng dwy funud a phump. Er hynny, os mai un fideo sydd i'w gynhyrchu, cytunodd y cyfranogwyr ar hyd delfrydol o 2 funud a 30 eiliad.

## CY5 - Pa negeseuwyr a dulliau lledaenu sy'n cael eu ffafrio gan y boblogaeth darged?

Nod y cwestiwn ymchwil hwn oedd nodi'r sianeli lledaenu gorau ar gyfer dosbarthu'r fideo animeiddio i bobl ifanc yng Nghymru, yn ogystal â'r rhanddeiliaid sydd yn y sefyllfa orau i weithredu fel negeseuwyr mewn fideos animeiddio ar frechlynnau. Gall yr wybodaeth hon roi canllawiau ar sut i ledaenu'r animeiddiad ar ôl ei ddatblygu.

O ran negeseuwyr mewn animeiddiadau brechu, roedd yr holl gyfranogwyr yn ffafrio cymysgedd o negeseuwyr, gan gynnwys nyrsys, teulu, a gweithwyr meddygol proffesiynol, ond roeddent yn arbennig o awyddus i glywed gan y person sy'n cael y brechlyn – eu cyfoedion. Er hynny, roedd gwahaniaeth hefyd rhwng y prif negeseuwyr yr oedd y ddau grŵp ffocws yn eu ffafrio.

Roedd pobl ifanc yn y grŵp ffocws pigiad atgyfnerthu 3-mewn-1 yn cynnwys eu rhieni neu eu gwarcheidwaid fel un o'r ychydig opsiynau cyntaf. Mae hyn yn dangos bod disgyblion yn edrych ar ffynonellau cyfarwydd, cysurlon, fel rhieni, i ddylanwadu ar eu hagweddau a'u penderfyniadau ynghylch brechu, sef ffordd o godi gwybodaeth trwy gyfleoedd cymdeithasol.

*"Hoffwn i siarad â fy modryb amdano…Mae'n debyg y byddwn i'n hoffi siarad â fy mam hefyd"*
– Grŵp ffocws brechiad 3-mewn-1

Roedd yr ail grŵp o negeseuwyr y cyfeiriwyd atynt yr hoffai pobl ifanc glywed ganddynt yn cynnwys gweithwyr meddygol proffesiynol, oedd yn boblogaidd ar draws y ddau grŵp ffocws, ond yn enwedig sampl y grŵp ffocws MenACWY. Roedd y rhesymau a roddwyd dros hyn yn cynnwys bod gweithwyr meddygol proffesiynol yn fwy profiadol a gwybodus am y pwnc o'u cymharu ag eraill. Roedd yn ymddangos bod gan bobl ifanc yn y grŵp hwn ymwybyddiaeth uwch nad yw eu rhieni'n anffaeledig, ac efallai bod ganddynt fylchau yn eu gwybodaeth eu hunain. Fe wnaethant hefyd gyfeirio at wefan y GIG fel ffynhonnell wybodaeth dda ar y cyd â gweithwyr meddygol proffesiynol.

Mynegodd y cyfranogwyr y byddent yn fodlon gwylio fideo animeiddio tebyg ar YouTube fel hysbyseb, ar TikTok, a gwefan y GIG. Wedi dweud hynny, mae sylwadau blaenorol y cyfranogwyr ynghylch ymgysylltu ag animeiddiadau o'r fath mewn amgylchedd heblaw'r ysgol hefyd yn awgrymu y gallai gwasanaethau ysgol fod yn ffordd dda o ledaenu animeiddiadau o'r fath.

*"Byddai'n well gen i siarad â'r nyrs oherwydd mae ganddyn nhw lawer mwy o brofiad na fy rhieni [ynglŷn â'r brechiad] yn amlwg"*
– Grŵp ffocws brechiad MenACWY

# Mewnwelediadau Ymddygiadol

Mae mewnwelediadau ymddygiadol yn mynd y tu hwnt i **beth** yw ymddygiadau i ddeall y **pam**, ac wedi hynny sut orau y gellir cyflawni newid cadarnhaol. Mae fframweithiau gwyddor ymddygiad sefydledig a ddefnyddiwyd i nodi'r rhain yn cynnwys MINDSPACE ac EAST. Darperir trosolwg o'r rhain yn yr atodiadau ar draws tudalennau 24 – 26.

Ar gyfer y briff hwn, nodwyd y mewnwelediadau ymddygiadol canlynol.

## Mae arna i angen mwy o wybodaeth

Gall diffyg gwybodaeth ddigonol (**Gallu Seicolegol – COM-B**) atal pobl ifanc rhag cymryd camau a all fodloni'r anghenion ffisiolegol, gwybyddol ac affeithiol sydd gennyn ni i gyd fel bodau dynol (**Ceisio**

**Gwybodaeth – Model Wilson**). Mwyaf i gyd o wybodaeth sydd gan bobl, mwyaf abl maen nhw'n teimlo i wneud penderfyniadau gwybodus i fodloni'r tri phrif angen hyn. Er hynny, yn niffyg gwybodaeth, gall pobl ifanc brofi gostyngiad mewn hyder sy'n adlewyrchu eu gallu llai i ateb eu hanghenion sylfaenol.

## Rwy'n ymddiried mewn ffynonellau sy'n agos ata i

Mae pobl yn ymddiried yn y rhai sy'n agos atynt, boed o ran lleoliad (h.y., bod yno yn bersonol) neu berthnasoedd (cyfoedion a theulu), waeth beth fo'u cymwysterau neu ba mor wybodus ydynt (**Rhagfarn Ymddiriedaeth, Rhagfarn Pellter**). Gellir esbonio hyn drwy'r ffaith bod naratifau personol yn gyffredinol yn haws i'w prosesu na gwybodaeth fwy ffeithiol neu ystadegol (**Gallu Seicolegol – COM-B**), yn rhannol oherwydd y rôl bwysig a chyffredin sydd gan naratifau drwy'n bywydau i gyd yn ogystal â bod y mathau hyn o wybodaeth yn fwy emosiynol ac yn fwy deniadol. Gall hwn fod yn llwybr da ar gyfer archwilio a lledaenu gwybodaeth, ond gall hefyd beri risg os yw'r rhai sy'n agos at y person ifanc yn dal safbwyntiau gwrth-frechlyn neu os ydynt wedi cael gwybodaeth anghywir eu hunain.

## Rwy'n goramcangyfrif fy ngallu i ganfod gwybodaeth anghywir

Mae pobl ifanc yn ymwybodol iawn o fygythiad gwybodaeth anghywir a gwybodaeth ffug, Er hynny, efallai eu bod yn goramcangyfrif eu gallu i'w hadnabod (**Effaith Dunning-Kreuger**). Y rheswm am hyn yw y gallai'r rhai nad ydyn nhw'n ymwybodol o'r hyn nad ydyn nhw'n ei wybod feddwl bod llai i bwnc nag sydd yna mewn gwirionedd, fel y gwelir pan fydd pobl ifanc yn cysylltu gwybodaeth anghywir i raddau helaeth â ffynonellau ar-lein a'r rhyngrwyd ond yn anghofio y gallai'r rhai o'u cwmpas hefyd fod yn ffynonellau gwybodaeth anghywir.

## Dydw i ddim eisiau colli allan ar unrhyw beth

Mae un ffordd arbennig o effeithiol o annog pobl ifanc i gael brechiad yn ymwneud â phwysleisio'r colledion posibl y gallent eu hwynebu os na chânt y brechlyn (**Anghymell Colli, Damcaniaeth Argoeli**). Gwelir hyn yn y ffaith bod pobl ifanc yn gweld bod canlyniadau peidio â chael brechlyn yn arbennig o berswadiol, gan gynnwys ofn colli allan ar chwaraeon neu weithgareddau corfforol os na fyddant yn cael brechlyn ac yn dal y clefyd.

## Gallaf wneud fy mhenderfyniadau fy hun

Mae pobl ifanc yn ymdrechu'n gynhenid am annibyniaeth a dewis personol, felly maent yn gwerthfawrogi'r ymddiriedaeth a roddir iddynt gan oedolion i wneud eu penderfyniadau eu hunain am eu hiechyd, ac mae ganddynt awydd i fod yn gyfranogwr gweithredol yn y broses frechu (**Annibyniaeth, Cymhwysedd – Damcaniaeth Hunanbenderfyniad, Cymhelliad Awtomatig – COM-B**). Y rheswm am hyn yw fel bodau dynol mae gennyn ni anghenion seicolegol cynhenid i fod yn benderfynyddion ar ein bywydau ein hunain a phrofi gallu a meistrolaeth dros dasg neu faes penodol ar gyfer ein gweithrediad hanfodol. Felly gall apelio at yr angen hwn am annibyniaeth a chymhwysedd ganiatáu dylanwad ar gymhelliad.

## Rydw i eisiau ffitio i mewn gyda fy ffrindiau

Mae pobl ifanc yn tueddu i edrych ar bobl eraill cyn penderfynu ar eu hymddygiad eu hunain (**Effaith y Praidd, Cyfle Cymdeithasol – COM-B**), boed hyn yn rhieni, cyfoedion, neu'r rhai o'u cwmpas yn unig. Efallai bod hyn yn deillio o'n hawydd cyffredinol i ffitio i mewn, sydd â gwreiddiau esblygiadol wrth ddarparu diogelwch. O ganlyniad, os yw ffrindiau person ifanc wedi cael brechlyn, maen nhw hefyd yn debycach o benderfynu cael y brechlyn wedyn.

# O fewnweledIad i weithredu

Ar ôl nodi'r saith mewnwelediad ymddygiadol y manylwyd arnynt yn yr adran flaenorol, trowyd at fframweithiau fel yr Olwyn Newid Ymddygiad i benderfynu pa ymyriadau fyddai'n fwyaf addas i hybu newid cadarnhaol a sut y gall y rhain lywio nid yn unig yr animeiddiadau, ond gweithgarwch ehangach i annog mwy o bobl i gael brechiadau.

Mae'r argymhellion hyn yn cymryd i ystyriaeth ganfyddiadau allweddol a mewnwelediadau ymddygiadol o bob rhan o'r ymchwil, yn ogystal â gwersi ynghylch pa fentrau eraill sydd wedi bod yn effeithiol neu'n llai effeithiol. Defnyddiwyd fframweithiau fel MINDSPACE ac EAST ymhellach i helpu i lunio nid yn unig beth ddylai'r ymyriad fod, ond hefyd sut olwg fyddai arno a sut y gellid ei gyflawni. Rydym wedi rhannu'r rhain yn nodau hirdymor, tymor canolig a hirdymor i helpu'r gwaith cynllunio a datblygu strategaeth ehangach.

Gwnaed yr argymhellion hyn yn seiliedig ar wybodaeth sydd ar gael ac a gafwyd drwy'r ymchwil eilaidd a sylfaenol, ac mewn rhai achosion byddent yn elwa o ragor o ymchwil er mwyn mireinio'r rhain ymhellach. Yn benodol, byddai prawf Addasrwydd, Dichonoldeb, Derbynioldeb (SFA) o'r argymhellion yn helpu i lywio'ch strategaeth weithredu drwy amlygu'r rhai sy'n barod i'w rhoi ar waith nawr, a'r rhai lle gall fod angen gwaith pellach cyn hynny (e.e., i sicrhau digon o adnoddau neu ddiddordeb). Dyma rywbeth y mae Social Change bob amser yn ei hybu, a gellir ei gyflawni trwy amrywiol ddulliau (e.e., adolygiad mewnol neu ymgynghoriad allanol), gan gynnwys trwy brofion gyda chynulleidfaoedd i'w cynnal yn sgil datblygu'r animeiddiadau.

Datblygwyd cyfanswm o 11 o argymhellion i'ch cefnogi yn eich cenhadaeth o blaid newid. Manylir ar y rhain isod.

## Argymhellion byrdymor

### Addysg

<u>Cynnwys mwy o wybodaeth am sgil-effeithiau posibl</u>

Dylai ymgyrchoedd sy'n cynnwys fideos animeiddiedig ar gyfer pobl ifanc gynnwys gwybodaeth am sgil-effeithiau gan fod yn ofalus i osgoi codi ofn. Gellir cyferbynnu'r rhain â chanlyniadau negyddol peidio â chael eich brechu er mwyn pwysleisio'r anghydraddoldeb a lleihau'r posibilrwydd y bydd cynnwys gwybodaeth am effeithiau yn mynd o chwith (**Preimio, Effeithio – MINDSPACE, Deniadol - EAST**). Dylid archwilio'r ffyrdd gorau o addysgu a hysbysu pobl ifanc am sgil-effeithiau brechiadau heb eu digalonni rhag cael eu brechu mewn ymchwil bellach.

Cynnwys mwy o ystadegau
Gellir gwella animeiddiadau sy'n annog pobl ifanc i gael eu brechu drwy gynnwys gwybodaeth sy'n cyfleu mor boblogaidd ac eang yw'r defnydd o'r brechlyn er mwyn apelio at duedd atgyfeirio cymdeithasol pobl ifanc (**Deniadol, Cymdeithasol – EAST, Cymhelliad, Normau, Amlygrwydd – MINDSPACE)**. Gellir gwneud hyn drwy gynnwys ystadegau ar faint o bobl sydd wedi cymryd y brechlyn yn fyd-eang ac yn lleol yng ngrŵp cyfoedion y gynulleidfa darged, yn ogystal â faint o bobl sydd wedi cymryd y brechlyn dros yr holl amser.

## Modelu

Pwysleisiwch straeon personol
Apeliwch at duedd pobl ifanc tuag at straeon personol a thystiolaeth anecdotaidd trwy eu cynnwys mewn ymgyrchoedd animeiddio (**Hawdd, Deniadol – EAST, Negesydd - MINDSPACE**). Gellir gwneud hyn drwy gael actor o berson ifanc i adrodd ei brofiad ar lafar (yn hytrach na thrwy destun fel y gwnaed yn yr animeiddiad enghreifftiol ar gyfer y brechlyn ffliw), gan bwysleisio positifrwydd y profiad. Drwy gynnwys sawl disgrifiad personol o brofiad pobl o gael brechlyn mewn un animeiddiad mae modd chwyddo'r effaith hon.

## Perswâd

Peidiwch â cholli'r profiad clywedol
Mae'n bwysig canolbwyntio hefyd ar y profiad clywedol o wylio animeiddiad ymgyrch, yn ogystal â'r elfennau gweledol (**Deniadol – EAST, Effeithiol – MINDSPACE**). Gellir gwneud hyn drwy gynnwys cerddoriaeth braf ac egnïol yn y cefndir i helpu i gynnal sylw'r gynulleidfa, yn ogystal â chael adroddwyr yr animeiddiad i fabwysiadu tôn fwy deniadol a bywiog sy'n cyfleu mwy o emosiwn. Gellid cyflawni hyn hefyd drwy gynnwys effeithiau sain ar adegau perthnasol yn ystod yr animeiddiad i ailffocysu unrhyw sylw sy’n dechrau llithro yn ôl ar yr animeiddiad.

Cynnwys bachyn gweledol
Mae'n allweddol bod yr animeiddiad yn ennyn diddordeb y gynulleidfa darged o fewn y ddwy eiliad gyntaf er mwyn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd yr animeiddiad yn cael ei wylio tan y diwedd (**Deniadol – EAST, Hawdd – EAST, Amlygrwydd – MINDSPACE**). Gellir cyflawni hyn drwy gynnwys cwestiwn perthnasol fel man cychwyn yr animeiddiad, neu drwy gynhyrchu'r bachyn yn weledol drwy chwarae gydag onglau a lleoliadau i ddenu llygad y gynulleidfa. Y ffordd orau o ddod o hyd i fachyn deniadol yn weledol i ennyn diddordeb y boblogaeth darged mewn fideo animeiddio sy'n gysylltiedig â brechu fyddai arbrofi a phrofi sawl opsiwn ac yna nodi'r strategaeth orau.

## Gorfodaeth

Pwysleisiwch effaith bosibl peidio â chael eich brechu
Dylai animeiddiadau brechlyn bwysleisio canlyniadau negyddol peidio â chael brechiad, gan gynnwys y canlyniadau sy'n gysylltiedig ag iechyd personol ac iechyd pobl eraill, er enghraifft drwy dynnu sylw at effeithiau'r clefyd y mae'r brechlyn yn amddiffyn rhagddo, a phwysleisio perygl y clefyd hwn i grwpiau sy’n agored i niwed (**Affaith – MINDSPACE**).

### Creu cymhelliant

<u>Rhoi mwy o gyfrifoldeb i'r bobl ifanc</u>

Anogwch fwy o ymgysylltiad â gwybodaeth ac animeiddiadau sy'n gysylltiedig â brechlynnau drwy bwysleisio cyfrifoldeb personol pob person ifanc i fod yn gyfrifol am ei iechyd ei hun, yn ogystal â sut mae hyn yn cael effeithiau canlyniadol ar iechyd eraill (**Ddeniadol – EAST, Creu cymhelliad, Normau, Preimio, Affaith – MINDSPACE**). Pwysleisiwch yr angen i bobl ifanc ddeall sut mae gwahanol frechlynnau'n gweithio a bod hyn o dan eu rheolaeth nhw i gysylltu â'u hawydd am annibyniaeth.

## Argymhellion tymor canolig

### Modelu

<u>Cynnwys cymunedau lleol mewn ymwybyddiaeth o frechlynnau</u>

Mae'n bwysig bod pobl ifanc yn deall pwysigrwydd cael eu haddysgu am frechlynnau a bod ganddyn nhw awydd i wneud hynny, felly argymhellir y dylai ymgyrchoedd ymwybyddiaeth o frechlynnau ddechrau cynnwys mwy o agweddau ar gymunedau lleol i gymryd rhan er mwyn modelu'r ymddygiad a ddymunir a'i gwneud yn haws iddyn nhw ddod yn gyfarwydd â'r pwnc (**Cymdeithasol – EAST, Negesydd, Cymhelliant – MINDSPACE**). Byddai hyn hefyd yn apelio at hoffter pobl ifanc o straeon personol a chysylltiad dynol, a gellir ei gyflawni drwy sefydlu dosbarthiadau ar ôl gwaith, stondinau dros dro, neu ddigwyddiadau cymunedol sy'n targedu pobl ifanc a'u teuluoedd.

### Galluogi

<u>Creu nifer o fersiynau o animeiddiadau</u>

Mae pobl ifanc yn amrywio o ran pa mor chwilfrydig ydyn nhw am bynciau iechyd ac o ran faint o amser maen nhw'n fodlon ei dreulio yn dysgu am bynciau o'r fath; o ganlyniad, mae'n ddoeth creu sawl fersiwn o'r un ymgyrch, er enghraifft un sy'n funud o hyd, ac un arall sy'n bedair munud o hyd. Bydd hyn yn hwyluso'r defnydd o fwy o ffrydiau lledaenu, a bydd yn apelio at gynulleidfa ehangach o bobl ifanc, nad yw llawer ohonynt am dreulio hyd yn oed un funud yn dysgu am frechlynnau neu fwy na phedair munud ar un fideo (**Hawdd, Deniadol – EAST**).

## Argymhellion hirdymor

### Addysg

<u>Cyflwyno pecynnau ymwybyddiaeth o frechlynnau i ysgolion</u>

Gall darparu pecynnau ymwybyddiaeth o frechlynnau mewn man lle mae'r bobl ifanc wedi arfer â rhoi sylw, ac yng nghanol eu cyfoedion, fod yn arbennig o fuddiol wrth feithrin trafodaeth ac ymgysylltiad â'r pwnc (**Cymdeithasol, Deniadol – EAST, Negesydd, Normau, Amlygrwydd – MINDSPACE)**. Gall pecynnau brechlynnau gynnwys gwybodaeth gyffredinol am y brechlynnau sy'n cael eu rhoi, gan gynnwys gwybodaeth am sgil-effeithiau a pha glefyd y mae'n amddiffyn rhagddo, yn ogystal â thaflen Cwestiynau Cyffredin a ffeithiau sy'n chwalu mythau, a gwybodaeth ymarferol ynghylch pryd a ble mae'r brechlynnau'n cael eu darparu a faint o ddosau sydd eu hangen (**Hawdd, Cymdeithasol – EAST, Normau, Amlygrwydd – MINDSPACE**). Fel hyn, gall rhieni/gwarcheidwaid hefyd wneud defnydd o'r wybodaeth a ddarperir i blant yn yr ysgol, gan ddefnyddio'r deunyddiau i ategu eu trafodaethau gyda phobl ifanc. At hynny, gellir amseru hyn i'r cyfnod cyn y brechiad

perthnasol i sicrhau bod gwybodaeth allweddol yn cael ei chadw a'i bod yn teimlo'n berthnasol i'r bobl ifanc a'u rhieni neu eu gwarcheidwaid (**Amserol – EAST**).

Creu adnoddau ar gamwybodaeth ar gyfer ysgolion
Efallai bod pobl ifanc yn ymwybodol o gamwybodaeth, ond efallai nad oes ganddyn nhw'r holl wybodaeth, sgiliau a phrofiad angenrheidiol i allu nodi hyn a gwirio'r ffynhonnell. O ganlyniad, rydym yn argymell creu adnoddau ymwybyddiaeth o gamwybodaeth sy'n seiliedig ar iechyd i'w dosbarthu trwy ysgolion i gynyddu ymwybyddiaeth pobl ifanc y gall camwybodaeth ddigwydd yn bersonol ac yn anfwriadol, a gellid cynnwys y rhain wedyn hefyd ochr yn ochr â'r pecyn ymwybyddiaeth o frechlynnau (**Cymdeithasol, Amserol – EAST, Negesydd, Amlygrwydd – MINDSPACE**).

## Casgliad

Ar y cyfan, mae pobl ifanc yn dangos parodrwydd i ymwneud â gwybodaeth sy'n gysylltiedig â brechiadau, ac maent yn agored i animeiddiadau sy'n gysylltiedig â brechlynnau fel dull o addysgu eu hunain ar y pwnc. Efallai mai'r canfyddiad mwyaf arwyddocaol a nodwyd oedd dibyniaeth pobl ifanc ar wybodaeth a straeon y maent naill ai wedi'u gweld ar-lein neu wedi'u clywed gan eu cyfoedion – maent yn gwerthfawrogi clywed gan y rhai sydd wedi cael y brechiad yn arbennig. Mae hyn yn ychwanegol at bwysigrwydd apelio at nifer o synhwyrau gan gynnwys y synhwyrau clywedol wrth greu fideos animeiddio deniadol ac apelgar.

O ganlyniad, credwn mai'r argymhelliad pwysicaf yw cynnwys elfen fwy personol mewn animeiddiadau brechlynnau a hynny trwy gynnwys straeon personol gan grŵp cyfoedion y gynulleidfa darged. Gellid cyflwyno'r rhain drwy 'hyrwyddwyr brechlynnau', a fyddai'n siarad â'u cyfoedion am frechiadau, gan rannu eu profiadau ac ateb unrhyw gwestiynau a allai fod ganddynt i gefnogi'r defnydd ohonynt. Mae hyn yn ychwanegol at bwysleisio poblogrwydd y brechlynnau trwy ystadegau sy'n gysylltiedig â'r nifer sy'n eu cymryd. Un argymhelliad allweddol arall fyddai cyflwyno mwy o fachau gweledol a chlywedol ar ddechrau animeiddiadau o'r fath er mwyn ymgysylltu â phobl ifanc o fewn yr ychydig eiliadau cyntaf cyn iddyn nhw sgrolio i ffwrdd o'r animeiddiad.

Dylai ICC barhau i gynnal ymchwil empirig ar y llwybrau dewisol a mwyaf effeithiol o gysylltu â'r gynulleidfa darged trwy brofi gwahanol ddulliau a gwerthuso eu heffaith, er enghraifft pa fath o fachyn gweledol fyddai'n gweithio orau.

## Profi gyda chynulleidfaoedd

Ar ôl datblygu'r animeiddiad, aethon ni ati i gynnal profion gyda chynulleidfaoedd ar gyfer y ddau animeiddiad er mwyn casglu adborth i lywio'i ddatblygiad terfynol. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi'r canfyddiadau o arolwg profi gyda chynulleidfaoedd a dau grŵp ffocws gyda 18 o fyfyrwyr o ysgol yn ardal BIPCF, gan drafod dau animeiddiad gwybodaeth am frechlynnau, y Td/IPV

3-mewn-1 a MenACWY. Cafodd rhai myfyrwyr blwyddyn 8 eu cynnwys yn y profion hyn fel eithriad, gan fod y sesiynau wedi digwydd ychydig cyn gwyliau'r ysgol a'u bod nhw ar fin symud i flwyddyn 9. Er hynny, dim ond 2% o'r cyfranogwyr oedd yn 12 oed. Edrychodd yr ymchwil ar eglurder, ymgysylltiad ac effeithiolrwydd yr animeiddiadau hyn, yn ogystal â dewisiadau ar gyfer sianeli cyfathrebu, lleisiau ac enwau'r brechiadau.

Roedd y canfyddiadau allweddol yn cynnwys y canlynol:

- Roedd y myfyrwyr yn teimlo bod animeiddiad y pigiad atgyfnerthu 3-mewn-1 yn gliriach, yn fwy deniadol ac yn haws i'w ddeall.
- Bernid bod yr animeiddiad MenACWY yn hirach ac yn llai deniadol
- Roedd yn llawer gwell gan y myfyrwyr gael trosleisio bywiog, clir a deunydd oedd yn amrywiol yn weledol
- Roedd geiriau fel 'booster' a 'teenage' yn fwy deniadol
- Argymhellodd cyfranogwyr yr arolwg a'r grwpiau ffocws y dylid darparu gwybodaeth ar wahân ar gyfer y ddau frechlyn er mwyn osgoi dryswch.

## Demograffeg yr ymatebwyr

Cafodd yr arolwg gyfanswm o 59 o ymatebion, yn bennaf gan ddwy ysgol wahanol yn ardal BIPCF a myfyrwyr 12-14 oed.

Tabl 6: Dadansoddiad o ymatebwyr yr arolwg yn ôl oedran

| Oedran | Canran |
|---|---|
| 12 | 2% |
| 13 | 34% |
| 14 | 63% |
| Gwell gen i beidio â dweud | 2% |

Tabl 7: Dadansoddiad o ymatebwyr yr arolwg yn ôl rhyw

| Rhyw | Canran |
|---|---|
| Benyw | 56% |
| Gwryw | 37% |
| Gwell gen i beidio â dweud | 7% |

Tabl 8: Dadansoddiad ymatebwyr yr arolwg yn ôl iaith

| Iaith | Canran |
|---|---|
| Saesneg | 96% |
| Cymraeg | 2% |
| Gwyddeleg | 2% |

Roedd cyfranogwyr y grwpiau ffocws yn cynnwys 18 o fyfyrwyr, wedi'u rhannu'n ddau grŵp (6 a 12 cyfranogwr yr un), yn cynrychioli myfyrwyr blwyddyn 8 a 9.

Tabl 10: Dadansoddiad cyfranogwyr y grwpiau ffocws yn ôl blwyddyn ysgol

| Blwyddyn ysgol | Canran |
|---|---|
| Blwyddyn 8 | 22% |
| Blwyddyn 9 | 78% |

Tabl 11: Dadansoddiad cyfranogwyr y grwpiau ffocws yn ôl rhyw

| Rhyw | Canran |
|---|---|
| Benyw | 56% |
| Gwryw | 44% |

## Sianeli cyfathrebu dewisol ar gyfer animeiddiadau brechlynnau

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddewis y ffordd orau o rannu animeiddiadau gwybodaeth am frechlynnau. Gwelir yr atebion mwyaf poblogaidd isod. Sylwch mai cwestiwn aml-ateb oedd hwn, a dyna pam efallai na fydd y canrannau'n adio i 100%.

- TikTok: 47%
- Gwasanaethau ysgol: 37%
- Snapchat: 32%
- Gwersi gwyddoniaeth: 19%
- Grwpiau tiwtor: 15%
- Diwrnodau addysg iechyd: 15%

## Animeiddiad Brechlyn Td/IPV 3-mewn-1

### Dewisiadau trosleisio

Y troslais mwyaf poblogaidd ymhlith ymatebwyr yr arolwg oedd troslais 1 (62%), dewis a gefnogwyd yn y grwpiau ffocws (53%) oherwydd ei eglurder a'i gyflymder.

### Dealltwriaeth, iaith ac effaith

Roedd pob cyfranogwr yn y grwpiau ffocws o'r farn bod yr animeiddiad yn hawdd i'w ddeall gan ddweud bod yr eirfa'n briodol ac yn hawdd ei deall. Dywedodd y mwyafrif o’r cyfranogwyr y byddent yn rhannu'r animeiddiad gyda ffrindiau a theulu. Nododd tri o’r myfyrwyr mai dyma’u hymwybyddiaeth gyntaf o'r brechlyn atgyfnerthu 3-mewn-1.

Dangosodd canlyniadau'r arolwg fod 57% wedi canfod bod yr animeiddiad yn hawdd i'w ddeall, 19% wedi canfod bod rhai rhannau'n hawdd a rhai ddim, tra nad oedd 24% yn ei chael yn hawdd. Hefyd, nododd 62% eu bod wedi dysgu mwy am y brechiad Td/IPV 3-mewn-1 o'r animeiddiad, a dywedodd 57% y byddai animeiddiadau fel hyn yn eu hannog i gael y brechlyn. Roedd y rhesymau'n cynnwys: 'oherwydd fod ei angen e', 'mae'n gwneud iddo edrych yn ddiogel', 'mae'n gwneud iddo edrych fel ei fod yn bwysig', 'roedd yn hawdd ei ddeall', 'mae'n dangos yn glir beth mae'n ei atal, a byddai’n well gen i atal hynny'.

Er hynny, dywedodd 57% o ymatebwyr yr arolwg na fyddent yn rhannu'r animeiddiad hwn gyda ffrindiau. Ar y llaw arall, roedd 52% yn credu y byddai eu rhieni neu eu gwarcheidwaid yn cael eu hannog i'w brechu ar ôl gwylio'r animeiddiad, tra oedd 33% yn ansicr.

### Dewis enwau brechlynnau

Nododd cyfranogwyr y grwpiau ffocws fod y gair 'booster' yn swnio'n gyffrous ac yn gadarnhaol, a bod 'teenage' yn gwneud i'r brechlyn deimlo'n berthnasol. Yn gyffredinol, doedd ganddyn nhw ddim dewis cryf ond roedden nhw'n teimlo bod y ddau derm hyn yn gadarnhaol.

Ymhlith yr ymatebwyr i'r arolwg, nid yw 43% yn gwrthwynebu'r enw, roedd 24% yn ffafrio 'teenage booster’, roedd 14% yn ffafrio '3 in 1 booster', ac roedd 10% yn ffafrio '3 in 1 vaccine'. Sy'n cyd-fynd ag ymatebion cyfranogwyr y grwpiau ffocws.

### Delweddau ac animeiddio

Roedd cyfranogwyr y grwpiau ffocws yn gwerthfawrogi naratif rhwydd yr animeiddiad, delweddau o'r broses frechu, a'r cynrychiolaeth glir o ganlyniadau peidio â chael eich brechu. Er hynny, roedd ymatebwyr yr arolwg yn llai brwdfrydig: Dywedodd 48% nad oedd y delweddau wedi dal eu llygad, dim ond 3% a ddywedodd eu bod wedi gwneud, a dywedodd 57% na fyddent yn gwylio'r animeiddiad (dywedodd 33% y byddent). Roedd y rhesymau'n cynnwys diffyg diddordeb yn y math hwn o fideo ac ansicrwydd ynghylch sut i'w wella.

### Awgrymiadau

Roedd cyfranogwyr y grwpiau ffocws yn gwerthfawrogi'r animeiddiad ond awgrymon nhw fersiwn fyrrach ar gyfer platfformau fel TikTok ac ychwanegu cerddoriaeth gefndir fywiog.

## Animeiddiad Brechlyn MenACWY

### Dewisiadau trosleisio

Roedd ymatebwyr yr arolwg yn ffafrio llais 1 (61%), tra bo cyfranogwyr y grwpiau ffocws yn ffafrio llais 2 (53%) oherwydd ei naws gyfarwydd ac optimistaidd.

### Dealltwriaeth, iaith ac effaith

Cafodd cyfranogwyr y grwpiau ffocws fod yr animeiddiad yn hawdd i'w ddeall, gyda geirfa briodol a lefel dda o wybodaeth, er bod rhai yn ei chael yn ailadroddus.

Roedd canlyniadau’r arolwg yn adlewyrchu hyn: Roedd 63% yn ei chael hi'n hawdd i'w deall, roedd 21% yn teimlo bod rhai rhannau'n hawdd a rhai ddim, ac nid oedd 16% yn ei chael hi'n hawdd. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn bod yr iaith yn glir. Dywedodd 79% eu bod wedi dysgu mwy am MenACWY o'r animeiddiad, a dywedodd 66% ei fod wedi'u hannog i gael y brechlyn, gan nodi rhesymau fel bod yr animeiddiad yn galonogol, yn gwneud y pwnc yn syml, ac yn egluro'r risgiau o beidio â chael eich brechu.

Er hyn, dywedodd 61% o ymatebwyr yr arolwg na fyddent yn rhannu'r animeiddiad gyda ffrindiau. Serch hynny, roedd 63% yn credu y byddai eu rhieni neu eu gwarcheidwaid yn cael eu hannog gan yr animeiddiad, tra oedd 34% yn ansicr.

### Esboniad Straen B

Teimlai cyfranogwyr y grwpiau ffocws nad oedd angen cynnwys esboniad am straen B, gan fod y fideo eisoes yn cynnwys llawer o wybodaeth ac yn darparu dolenni ar gyfer rhagor o fanylion. Er hynny, roedd 66% o ymatebwyr yr arolwg eisiau esboniad pam nad oedd straen B wedi'i gynnwys. O'r rhain, roedd yn well gan 37% bod y siaradwr yn mynd i'r afael â hyn, roedd 29% eisiau neges ar y sgrin, ac wnaeth 29% ddim ateb.

### Delweddau ac animeiddio

Roedd gan ymatebwyr yr arolwg safbwyntiau cymysg: Dywedodd 50% fod y delweddau wedi dal eu llygad, dywedodd 37% efallai, a dywedodd 13% na. Pan ofynnwyd a fyddent yn gwylio'r animeiddiad, dywedodd 45% ie, dywedodd 26% na, a dywedodd 24% efallai. Nododd y rhai na fyddai'n ei wylio eu bod yn ffafrio cynnwys arall, bod yr animeiddiad yn rhy hir, neu ddiffyg diddordeb cyffredinol yn y math hwn o fideo: 'oherwydd yn fy amser rhydd rwy'n gwylio pethau sydd o ddiddordeb i mi', 'mae'r animeiddiad yn ymddangos yn rhy hir', 'achos dwi ddim yn gwylio'r mathau hyn o animeiddiadau lawer, ond pe bai e'n troi i fyny ar fy sgrin yna mae'n debyg y byddwn i'n ei wylio', etc.

### Awgrymiadau

Canfu cyfranogwyr y grwpiau ffocws fod yr animeiddiad MenACWY yn hirach ac yn fwy ailadroddus na'r animeiddiad Td/IPV 3-mewn-1. Roedd yn well ganddyn nhw'r amrywiaeth o ddelweddau yn yr animeiddiad 3-mewn-1, tra bo'r animeiddiad MenACWY yn cael ei ystyried yn statig ac yn llai deniadol. Er hynny, roedd yr arddull sgwrsio yn cael ei gwerthfawrogi.
Argymhellodd cyfranogwyr y grwpiau ffocws wneud yr animeiddiad yn fyrrach ac yn fwy deinamig, gyda golygfeydd mwy amrywiol a chyflymder cyflymach, yn enwedig i'w ddefnyddio ar blatfformau fel TikTok.

## Dewisiadau ar gyfer cyflwyno gwybodaeth

Argymhellodd cyfranogwyr y grwpiau ffocws y dylid darparu deunyddiau gwybodaeth ar wahân ar gyfer y ddau frechlyn er mwyn osgoi dryswch ond rhoi'r ddau ohonynt yr un pryd. Ymhlith yr ymatebwyr i'r arolwg, nid oedd gan 41% unrhyw wahaniaeth, roedd 36% yn ffafrio gwybodaeth ar wahân, ac roedd 20% yn ffafrio deunyddiau cyfun.

## Datblygu'r animeiddiadau terfynol


Defnyddiwyd y canfyddiadau uchod i lywio datblygiad terfynol dau animeiddiad, un i bob brechlyn. Bydd mewnbwn creadigol o'r rhain hefyd yn helpu i greu asedau a deunyddiau cysylltiedig.

# Atodiadau

## Atodiad A: Model Ymddygiad COM-B ac Olwyn Newid Ymddygiad (Michie, et al., 2011)

Mae model ymddygiad COM-B yn cynnig bod tair elfen i ymddygiad sy'n hanfodol ar gyfer ei gyflwyno a'i gynnal: Gallu (sgiliau a gwybodaeth seicolegol), Cyfle (a grëir gan yr amgylchedd ffisegol a chymdeithasol), a Chymhelliad (sef ymateb greddfol a rhesymu). Yn unol â'r manylion isod, mae gan bob cydran is-gydran.

**Ffig.1: Model Ymddygiad COM-B.**





**Tabl 13. Cydrannau ac is-gydrannau COM-B**

| Cydran | Disgrifiad | Ei Pherthnasedd i Frechiadau |
|---|---|---|
| **Gallu Seicolegol** | Gwybodaeth neu gryfder, sgiliau neu stamina seicolegol, | Hyder i ymwneud â gwybodaeth am frechlynnau a gwybodaeth sy'n gysylltiedig ag iechyd. Gwybodaeth am brosesau brechu. |
| **Gallu corfforol** | Cryfder, sgiliau a dygnwch corfforol | Gallu corfforol, iechyd. |
| **Cyfle cymdeithasol** | Cyfleoedd yn sgil ffactorau cymdeithasol, e.e. normau a chiwiau | P'un a yw pobl eraill yn cael brechlynnau. Dylanwad pobl eraill. |
| **Cyfle Corfforol** | Cyfleoedd a ddarperir gan yr amgylchedd ffisegol, e.e. amser, lleoliad, adnoddau | Cael amser i ymwneud â gwybodaeth am frechlynnau. Gallu cyrraedd canolfannau brechu. Mynediad at wybodaeth sy'n gysylltiedig â brechlynnau. |
| **Cymhelliad Awtomatig** | Dymuniadau, ysgogiadau ac ataliadau | Lefel ymdrech – bod â diddordeb. |
| **Cymhelliad Myfyriol** | Gwneud cynlluniau, gwerthuso pethau sydd eisoes wedi digwydd | Manteision cael brechiad yn gorbwyso'r ofn o sgil-effeithiau. |

Mae model COM-B yn amhrisiadwy ar gyfer deall ymddygiad, ac mae'n ffurfio canolbwynt yr Olwyn Newid Ymddygiad (BCW), sy'n ceisio dangos ymhellach sut y gellir newid ymddygiad o'r fath.

**Ffig. 2: Olwyn Newid Ymddygiad.**




Unwaith y bydd rhwystrau sy'n ymwneud â COM-B wedi'u nodi, mae cylchoedd canol ac allanol y BCW yn anelu at lywio a chefnogi datblygiad ymyriadau sy'n gweithio, trwy nifer o ddulliau cyflawni gwahanol. Er enghraifft, os nodir diffyg gwybodaeth (gallu seicolegol) fel problem allweddol, gellir datrys hyn drwy addysg drwy gyfathrebu a marchnata.

## Atodiad B: MINDSPACE (Dolan, et al., 2010)

Mae fframwaith MINDSPACE, sy'n gofrif ar gyfer naw dylanwad ar ymddygiad, yn ceisio cyfleu'r ffyrdd y gellir dylanwadu ar ymddygiad a'i newid. Bydd defnyddio'r fframwaith hwn ochr yn ochr â datblygu ymyriadau ar gyfer newid yn helpu i ystyried y ffordd orau o'i fframio a gwneud y mwyaf o'i gyfle i lwyddo.

**Tabl 14. Egwyddorion MINDSPACE.**

| | |
|---|---|
| **Negesydd (Messenger)** | Rydym yn cael ein dylanwadu'n gryf gan bwy sy'n cyfleu gwybodaeth i ni |
| **Cymhelliant (Incentive)** | Mae ein hymatebion i gymhellion yn cael eu llunio gan lwybrau byr meddyliol rhagweladwy megis ymgais fawr i osgoi colledion |
| **Normau (Norms)** | Rydym yn cael ein dylanwadu'n gryf gan yr hyn y mae pobl eraill yn ei wneud |
| **Diofyn (Default)** | Rydym yn 'mynd gyda'r llif' neu gydag opsiynau sydd wedi'u gosod ymlaen llaw |
| **Amlygrwydd (Salience)** | Mae'n sylw yn cael ei dynnu at yr hyn sy'n newydd ac sy'n ymddangos yn berthnasol inni |
| **Preimio (Priming)** | Mae'n gweithredoedd yn aml yn cael eu dylanwadu gan arwyddion isymwybodol |
| **Affaith (Affect)** | Gall ein cysylltiadau emosiynol siapio'n gweithredoedd yn bwerus |
| **Ymrwymiad (Commitment)** | Rydym yn ceisio bod yn gyson â'n haddewidion cyhoeddus, ac yn cilyddu |
| **Ego** | Rydym yn ymddwyn mewn ffyrdd sy'n gwneud inni deimlo'n well amdanon ni'n hunain |

## Atodiad C: Egwyddor EAST

Mae'r fframwaith hwn yn ddewis arall byrrach yn lle MINDSPACE, gan gyfleu'r un mor dda sut y dylid cyflwyno ymddygiad er mwyn annog a galluogi pobl i gymryd rhan ynddo. Dylai ystyried sut y gellir fframio ymddygiad fel un hawdd, deniadol, cymdeithasol ac amserol gael ei ymgorffori wrth ddatblygu ymyriadau fel bod pobl nid yn unig yn cael eu galluogi i ymwneud â'r ymddygiad, ond hefyd yn cael eu cymell i wneud hynny.

**Tabl 15. Cydrannau Egwyddor EAST.**

| | | |
|---|---|---|
| **E** | **Hawdd (Easy)** | Gwneud yr ymddygiad dymunol yn hawdd i'w weithredu |
| **A** | **Deniadol (Attractive)** | Denu sylw pobl at yr ymddygiad a'i wneud yn ddymunol i gymryd rhan ynddo |
| **S** | **Cymdeithasol (Social)** | Mae pobl yn cael eu dylanwadu gan bobl eraill ac yn debycach o ymwneud ag ymddygiad os oes llawer o bobl eraill yn gwneud hefyd neu os ydynt wedi gwneud ymrwymiad cyhoeddus |
| **T** | **Amserol (Timely)** | Mae pobl yn cael eu dylanwadu gan amseriad awgrymiadau ac yn debycach o newid eu harferion os yw'r costau a'r manteision yn cael eu teimlo ar unwaith yn hytrach nag yn hwyrach |

# Cyfeiriadau


The Behavioural Insights Team. (2014, Ebrill 11). East: Four simple ways to apply behavioural insights. Wedi'i gyrchu Ebrill 07, 2021

Berg, T. (2019). *Factors influencing adolescents' uptake of and intention to receive the MenACWY-vaccination in the Netherlands: A Cross-Sectional Study* (Traethawd Gradd Meistr, Prifysgol Twente).

BMG (2022) *Attitudes towards COVID-19 and Flu Immunisations among Young People and Parents*. Ar gael yn: https://phw.nhs.wales/topics/immunisation-and-vaccines/engagement-insights/attitudes-towards-covid-19-and-flu-immunisations-among-young-people-and-parents-2022-pdf/.

*COVER (2023) - Data cenedlaethol ar imiwneiddio i blant* (dim dyddiad) *Iechyd Cyhoeddus Cymru*. Ar gael yn: https://icc.gig.cymru/pynciau/imiwneiddio-a-brechlynnau/cover-data-cenedlaethol-ar-imiwneiddio-i-blant/ (wedi'i gyrchu: 11 Rhagfyr 2024).

*COVER 152: Wales November 2024 - Vaccine Uptake in Children in Wales July to September 2024, Public Health Wales. Ar gael yn: https://phw.nhs.wales/topics/immunisation-and-vaccines/cover-national-childhood-immunisation-uptake-data/cover-archive-folder/quarterly-reports/cover-152-july-to-september-2024/* (Wedi'i gyrchu: 26 Awst 2025).

Dolan, P., Hallsworth, M., Halpern, D., King, D., Vlaev, I. (2010). MINDSPACE: Influencing behaviour through public policy Institute for Government

Home - NHS Wales (2023) PARENTS/GUARDIANS OF CHILDREN UNDER 18. Ar gael yn: https://phw.nhs.wales/topics/immunisation-and-vaccines/engagement-insights/ (Wedi'i gyrchu: 11 Rhagfyr 2024).

Michie, S., Atkins, L., a West, R. (2014). The behaviour change wheel: A guide to designing interventions.

Oostdijk, C., Van Zoonen, K., Ruijs, W. L. M., a Mollema, L. (2021). Household decision-making for the MenACWY vaccination: How parents and adolescents deal with an adolescent vaccination decision. *Vaccine*, *39*(31), 4283-4290.

Widdershoven, V., Reijs, R. P., Verhaegh-Haasnoot, A., Ruiter, R. A., a Hoebe, C. J. (2022). Psychosocial and organizational barriers and facilitators of meningococcal vaccination (MenACWY) acceptance among adolescents and parents during the Covid-19 pandemic: a cross-sectional survey. *BMC Infectious Diseases*, *22*(1), 507.

RYDYN NI EISIAU GWEITHIO DIM OND GYDA SEFYDLIADAU SYDD EISIAU CREU NEWID CYMDEITHASOL CADARNHAOL, A PHOBL SYDD EISIAU GWNEUD LLES. RYDYN NI'N MEDDWL MAI CHI YW HWN... GADEWCH I NI GYDWEITHIO.

SOCIAL CHANGE

**London.**

The Gridiron Building,
1 Pancras Square,
London,
N1C 4AG

Phone: 020 7186 1980

**Lincoln.**

First Floor,
29-31 Mint Street, Lincoln,
LN1 1UB

Phone: 01522 77 50 60

www.social-change.co.uk

978-1-83766-777-2